**COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANFAIR A GYNHALIWYD YN Y NEUADD GOFFA, LLANFAIR AM 7.30 O'R GLOCH 08.01.20**

**YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Gerallt Jones, David J. Roberts, Robert G. Owen.

**PRESENNOL**
Cyng. Eurig Hughes (Cadeirydd), Russell Sharp (Is Gadeirydd), Caerwyn Roberts , Dylan Hughes, Mair Thomas, a'r Cyng. Annwen Hughes (Cyngor Gwynedd).

Ar ran y Cyngor cydymdeimlodd y Cadeirydd gyda'r Cyng. Russell Sharp a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei Fam yn ddiweddar.

**COFNODION**
Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Tachwdd 20ed 2019 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI**
**Cynllun Cyllideb**
Dosbarthwyd copiau o'r uchod yn dangos y gwahaniaethau yn y gwariant a oedd wedi cael ei wneud i fyny hyd at y 31ain o Ragfyr 2019 ers dechrau Ebrill 2019 a beth oedd wedi cael ei glustnodi yn y cynllun cyllideb hyd at diwedd mis Rhagfyr i bob aelod oedd yn bresennol. Adroddwyd bod £17,905.58 wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £4,327.32 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn. Aeth yr aelodau drwy y gwahaniaethau yn y gwariant a oedd wedi cael ei wneud a beth oedd i lawr ar y cynllun cyllideb fesul un.

**Cyllideb y Cyngor am 2020/21**
Dosbarthodd y Trysorydd gopiau o gyfrifon y Cyngor i fyny at y 31ain o Ragfyr 2019 i bob aelod er mwyn iddynt gael gweld beth oedd y sefyllfa ariannol. Fe gafwyd trafodaeth ynlgyn ar mater uchod a penderfynwyd fod amcangyfrif o'r gwariant canlynol gan y Cyngor am y flwyddyn ariannol nesa - insiwrant y Cyngor £450, cyflog y Clerc £1,900, costau y Clerc £300, treth ar gyflog y Clerc £380, Cyfrifydd y Clerc £192, cyfraniadau £1,000, pwyllgor neuadd goffa £1,000, Hamdden Harlech ac Ardudwy £8,216.48, Dwr Cymru £40, costau y fynwent £1,500, torri gwair y fynwent £2,000, torri gwair y llwybrau £1,200, biniau halen £300, Un Llais Cymru £100, amrywiol £1,000, cyfraniad i gadw toiled Llandanwg yn agor £4,000, archwilwyr £600, llogi ystafell bwyllgor £150.

**Precept y Cyngor am y flwyddyn 2020/21**
Fe dderbyniwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd ynglyn ar mater uchod. Ar ol trafod y gyllideb a rhagweld beth fyddai gwariant y Cyngor am y flwyddyn ariannol nesa ag hefyd y ffaith bod y precept heb cael ei chodi ers dwy flynedd, penderfynwyd codi y precept o £13,000 i £16,000.

**Polisi Asesiad Risc y Cyngor**
Dosbarthwyd copiau o'r uchod i bob aelod a oedd yn bresennol a gafodd bob eitem a oedd arno ei drafod arwahan. Penderfynwyd derbyn y polisi hwn.

**Panel Cyfrifiad Annibynnol**
Adroddodd y Clerc bod yn rhaid arwyddo ffurflen gan bob Cynghorydd ynglyn ar uchod eto eleni. Mae angen rhestru bob rheol sydd yn cael ei mabwysiadu yn cofnodion y Cyngor ag os bydd rheol taliadau ar gyfer costau yn cael ei mabwysiadu bydd angen i'r Cynghorwyr sydd DDIM am hawlio costau arwyddo ffurflen yn datgan hyn. Ar ol trafodaeth cytunwyd i fabwysiadu y rheol taliadau ar gyfer costau eto eleni ac arwyddwyd datganiad gan bob Aelod oedd yn bresennol eu bod yn mynd i hawlio costau.

**Llinellau Melyn ger stesion Llandanwg**
Adroddodd y Clerc ei bod heb glywed ddim byd ychwanegol ynlgyn ar mater uchod ers y cyfarfod diwethaf.

**Pwyllgor Neuadd – 27.11.19**
Adroddodd y Cyng. Mair Thomas ei bod wedi mynychu y cyfarfod uchod ac adroddodd fel a ganlyn – bod y sefyllfa

ariannol yn iawn ar hyn o bryd ond bod angen talu am gael yr offer chwarae wedi eu tynnu ag adfer y safle. 'Roedd insiwrant y neuadd wedi ei dalu, ag hefyd yn nol gofynion y cwmni insiwrant 'roedd arolwg wedi cael ei wneud o'r adeilad gan drydanwr. 'Roedd gwasanaeth Sul y Cofio teilwng wedi cael ei gynnal wedi ei drefnu gan Swyddogion y pwyllgor a phobol lleol yn cymeryd rhan. Hwyrach fydd angen peintio tu allan y neuadd y flwyddyn nesa, neu o leiaf yr ochr ddwyreiniol a bod y pwyllgor yn cadw golwg ar y sefyllfa. Bydd cyfarfod nesa y pwyllgor ar yr 19eg o Chwefror ar cyfarfod blynyddol yn cael ei gynnal ar y 25ain o Fawrth.

**CEISIADAU CYNLLUNIO**
Ddim wedi dod i law ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

**Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad arnynt**
Ddim wedi dod i law ers y cyfarfod diwethaf.

**ADRODDIAD Y TRYSORYDD**
Adroddodd y Trysorydd bod £3,591.84 yn y cyfrif rhedegol, a £5,515.53 yn y cyfrif cadw.

**Taliadau ers y cyfarfod diwethaf**
Cyllid a Thollad - £95.00 – treth ar gyflog y Clerc

**Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf**

| | | |
|---|---|---|
| Mr. M. Downey | - £40.00 | - rhent cwt yr hers (Rhagfyr) |
| Mr. M. Downey | - £40.00 | - rhent cwt yr hers (Ionawr) |

Adroddodd y Trysorydd bod y Cyngor wedi dan wario £4,327.32 ers cychwyn y flwyddyn ariannol hon hyd at y 31ain o Ragfyr 2019 ag ei bod yn rhagweld byddai £7,837.92 yn cael ei gario drosodd ar y 31ain o Fawrth 2020. Rhaid cofio hefyd bydd o leiaf £1,387.00 o wariant angen ei wneud erbyn diwedd Mawrth 2020 a ddim ond £120.00 o daliad rhent cwt yr hers oedd i ddod i mewn (ar hyn o byrd) ag byddai gan y Cyngor wariant sylweddol i'w wneud yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf 2020/21 oherwydd bod £8,216.48 wedi cael ei glustnodi ar gyfer Hamdden Harlech ac Ardudwy a £4,000 wedi cael ei glustnodi i Gyngor Gwynedd fel cyfraniad y Cyngor i gadw y toiled cyhoeddus yn agored yn Llandanwg yn gwneud cyfanswm o £12,216.48 heb gynnwys ddim gwariant arall fyddai y Cyngor yn ei wneud. Felly wrth gofio y byddai hwyrach £7,837.92 yn cael ei gario drosodd a bod y precept wedi cael ei chodi £3,000 o £13,000 i £16,000 (£12,216.48 + £16,000 = £28m216.48) hwyrach bydd y Cyngor yn iawn gyda'i gwariant am y flwyddyn ariannol 2020/21, 'roedd rhaid cofio bod y precept heb gael ei chodi ers dwy flynedd a dyna pam ei bod wedi cael ei chodi i £16,000 neu byddai y Cyngor yn mynd i sefyllfa ariannol bregys. Bydd yr Aelodau yn gallu gweld y rhagolygon ariannol am y flwyddyn i ddod yn well diwedd Mawrth 2020.

**GOHEBIAETH**
**Llywodraeth Cymru**
Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor mae y swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Gwariant Adran 137 y Terfyn ar gyfer 2020/21 fydd £8.32 yr etholwr. Adroddodd y Clerc y rhif o diweddaraf o etholwyr sydd genni yw 331 ag felly mae gan y Cyngor hawl i gyfranu hyd at £2,755.92 i gyrff allanol.

**UNRHYW FATER ARALL**
Eisiau gofyn i Mr. Hywel Jones dynnu yr hen hysbysfwrdd sydd ger lloches bws Caersalem i lawr.
Cafwyd wybod bod y twll yn maes parcio y maes, Llandanwg byth wedi cael ei drwsio.
Cafwyd wybod bod ysbwriel sylweddol wedi cael ei adael ger y llecyn parcio ar ol tro Frondeg.
Cafwyd wybod gan y Cyng. Dylan Hughes bod Cyfarwyddwyr Hamdden Harlech ac Ardudwy eisiau barn Cynghorau yr ardal ynglyn ar cais maen't wedi ei dderbyn gan rhai noethlymunwyr yn gofyn i gael defnyddio y pwll nofio.
Cytunwyd, ar ol trafodaeth, bod yr Aelodau ddim yn hapsu hefo hyn i ddigwydd.

**Dyddiad Cyfarfod Nesa**
**Penderfynwyd cynnal cyfarfod nesa y Cyngor ar nos Fercher Chwefror 26ain 2020 am 7.00 o'r gloch**

**ARWYDDWYD**.......RRSHarf.......Cadeirydd

**DYDDIAD**.......26/02/2020....... 